Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC71: Asesiad o Effaith ar Iechyd

Cynllun i'w archwilio

gan y cyhoedd

Mai 2025

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd.**

This document is available to view and download on the Council's web-site**.** Copies are also available to view at main libraries and Council offices and can be obtained from the Strategic Planning Policy Service, Coed Pella, Conway Road, Colwyn Bay LL29 7AZ or by telephoning (01492) 575461. If you would like to talk to a planning officer working on the Local Development Plan about any aspect of this document please contact the Strategic Planning Policy Service on (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

**This document can be provided on CD, electronically or in large-print and can be translated into other languages. Contact the Planning Policy Service on (01492) 575461**.

# Asesiad Effaith ar Iechyd Cyfranogol Cyflym ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd) 2018-2033

## Adroddiad Cryno

## Mai 2025


**Awduron:**

Cheryl Williams, Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd, WHIASU, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Lydia Orford, Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

…..


CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

UGAEIC
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit

**Asesiad Effaith ar Iechyd Cyflym ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd) 2018-2033**

## 1. Cyflwyniad

Mae Asesiad o Effaith ar Iechyd yn broses sy'n cefnogi sefydliadau i asesu canlyniadau posibl eu penderfyniadau ar iechyd a lles pobl. Mae'n darparu fframwaith systematig, hyblyg ac ymarferol y gellir ei ddefnyddio i ystyried effaith ehangach polisïau neu fentrau lleol a chenedlaethol a sut, yn eu tro, y gallent effeithio ar iechyd pobl. Mae'n gweithio orau pan fydd yn cynnwys pobl a sefydliadau sy'n gallu cyfrannu gwahanol fathau o wybodaeth a dealltwriaeth. Defnyddir y wybodaeth wedyn i fewnosod mesurau i wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer iechyd a gostwng risgiau a gall hefyd nodi unrhyw 'fylchau' y gellir eu llenwi. Gall Asesiad o Effaith ar Iechyd hefyd ddarparu ffordd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd sy'n parhau yng Nghymru trwy ganfod unrhyw grwpiau o fewn y boblogaeth a all gael eu heffeithio'n benodol gan bolisi, cynllun neu raglen.

Mae ffigur 1 isod yn dangos penderfynyddion ehangach iechyd sy'n effeithio ar iechyd a lles a gaiff eu hystyried o fewn Asesiad o Effaith ar Iechyd.




*Ffigur 1: Penderfynyddion ehangach iechyd, Barton a Grant 2010*

Er y gall rhai effeithiau ar benderfynyddion iechyd fod yn uniongyrchol, amlwg a/neu'n fwriadol, gall eraill fod yn anuniongyrchol, anodd eu canfod ac yn anfwriadol. Gall Asesiad o Effaith ar Iechyd ganfod anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth gyffredinol a hefyd mewn 'grwpiau diamddiffyn' (e.e. plant, pobl ifanc neu unigolion hŷn). Prif allbwn unrhyw Asesiad o Effaith ar Iechyd yw cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, a ddylai arwain at leihau risgiau neu ganlyniadau anfwriadol a gwneud y mwyaf o fuddion posibl. Gall ddarparu cyfleoedd ar gyfer gwella iechyd ac i lenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth gwasanaeth.

## 2. Cefndir i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN)

Bydd Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy 2018-2033, unwaith caiff ei fabwysiadu'n ffurfiol, yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol a bydd yn darparu glasbrint cynllunio newydd ar gyfer datblygiadau ar draws Conwy yn y dyfodol hyd at 2033. Bydd y CDLlN yn nodi sut a ble dylai datblygiadau ddod ymlaen i gyd-fynd â'r dyheadau twf a nodir. Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi gweledigaeth, amcanion, polisïau strategol a chynllun twf y Cynllun. Cam nesaf y broses yw llunio Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd, a fydd yn cynnwys polisïau manwl a dyraniadau safle strategol.

Mae'r weledigaeth ar gyfer y CDLlN yn canolbwyntio ar wella lles pobl yng Nghonwy, a'r dull trosfwaol ar gyfer y Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd fydd cefnogi pobl i fabwysiadu ffordd o fyw iach, datblygiad cynhwysiad cymdeithasol diogel a chymunedau mwy cydlynol.

Mae nifer o amcanion o fewn y CDLlN sy'n arbennig o berthnasol i iechyd a lles.

- Creu Lleoedd (SO1);
- Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol (SO4);
- Mannau Hamdden (SO5)
- Cludiant Cynaliadwy a Hygyrchedd (SO6).

## 3. Proffil Cymunedol Conwy


Yng Nghonwy newidiodd strwythur oedran y boblogaeth yn sylweddol rhwng 2011 a 2021 (data Cyfrifiad) (Ffigur 2). Mae:

- Cynnydd o 11.5% yn y bobl 65 oed a throsodd, ac yn benodol yn yr ystod oedran 70-74 (cynnydd o 34%),
- gostyngiad o 4.3% yn y bobl 15-64 oed
- gostyngiad o 3.2% yn y plant o dan 15 oed.

Mae'r strwythur oedran newidiol yn golygu y bydd cyfran gynyddol o bobl hŷn yng Nghonwy a all fod yn byw yn annibynnol, ond hefyd bydd cyfran gynyddol angen cymorth iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer y bobl hŷn sy'n byw gyda chyflwr hirdymor wedi cynyddu, gan arwain at alw uwch ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae dementia yn fwy amlwg mewn pobl dros 65 oed, a rhagwelid y bydd cynnydd mawr mewn dementia dros y 20 i 30 mlynedd nesaf yn sgil y boblogaeth sy'n heneiddio.




*Ffigur 2: Newid yn y boblogaeth yng Nghonwy fesul grŵp oedran 2011-2021*

*Ffynhonnell: Cyfrifiad ONS 2021 Sut mae'r boblogaeth wedi newid yn eich ardal, Cyfrifiad 2021 - ONS*

Mae poblogaeth Conwy wedi aros yn eithaf sefydlog dros y cyfnod o ddeg mlynedd, heb dyfu na lleihau. Mae data poblogaeth Stats Cymru yn rhagweld y bydd poblogaeth Conwy wedi cynyddu oddeutu 4.5% rhwng 2021 i 2043, sy'n gyfystyr â bron i 6,000 o bobl.


Nid yw amddifadedd wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws Conwy. Mae gan Gonwy 71 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, ac mae 4 o'r rhain o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hyn wedi'u lleoli yn ardaloedd arfordirol Conwy:

- Glyn 2;
- Abergele Pensarn 2;
- Tudno 2;
- Colwyn 2.

Mae amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar ddisgwyliad oes a disgwyliad bywyd iach. Yng Nghonwy ar y cyfan, disgwyliad oes ar gyfer dynion yw 78.7 mlynedd ac ar gyfer merched yw 82.4 mlynedd (ffigur 3).


Bydd merched yn y cymunedau mwyaf cefnog yn byw ar gyfartaledd ychydig dros 5 mlynedd yn hirach na'r rhai yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, ar gyfer dynion y ffigur hwn yw 7.5 mlynedd (ffigur 4).

Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer merched, sydd â bwlch o 6.4 mlynedd a thua'r un fath ar gyfer dynion yng Nghymru sydd â bwlch o 7.6 mlynedd.




*Ffigur 3: Disgwyliad oes ar enedigaeth yng Nghonwy a Chymru, 2021-23*

*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022*





*Ffigur 4: Bwlch mewn disgwyliad oes ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghonwy a Chymru, 2021-23*

*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022*

O ran disgwyliad bywyd iach (nifer y blynyddoedd gall unigolyn ddisgwyl byw gydag iechyd da neu dda iawn):

- rhagwelir y bydd dynion sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn byw gydag iechyd da am bron i 19 mlynedd yn llai na dynion yn y cymunedau lleiaf difreintiedig (ffigur 5), o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o oddeutu 13 mlynedd.
- Ar gyfer merched, mae'r ffigur hwn yn llawer is, gyda merched yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn byw gydag iechyd da am bron i 14 mlynedd yn llai o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o bron i 17 mlynedd.




*Ffigur 5: Bwlch mewn disgwyliad oes iach ar enedigaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghonwy a Chymru, 2021-23*

*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022*

## 3. Tystiolaeth yn cysylltu iechyd i'r amgylchedd adeiledig

Mae tystiolaeth glir[1,2] i ddangos sut mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn effeithio ar iechyd a lles. Gall amgylcheddau sydd wedi'u cynllunio a'u dylunio'n wael effeithio'n negyddol ar iechyd, er enghraifft tai o ansawdd gwael, diffyg mannau gwyrdd, gofodau wedi'u dominyddu gan geir gydag ychydig iawn o gyfle ar gyfer teithio llesol, diffyg cyfleoedd cymdeithasol a diffyg gwasanaethau hanfodol megis gofal iechyd. Gall gynllunio amgylcheddau iach gael effaith sylweddol ar iechyd a lles y boblogaeth.

Mae ymchwil sy'n cysylltu cyflyrau iechyd hirdymor a'r amgylchedd adeiledig, yn darparu sail dystiolaeth i'r awdurdod lleol i ystyried lle gall y CDLlN gael effaith o ran anghenion iechyd y boblogaeth leol.

Gall nifer o broblemau iechyd gael eu heffeithio neu gael eu gwella trwy'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, mae tabl 1 yn amlygu rhai cyflyrau iechyd sydd wedi'u cysylltu'n agos i'r amgylchedd, a'r ystyriaethau cynllunio a dylunio y mae tystiolaeth yn ei ddangos sy'n gallu mynd i'r afael â nhw.

**Tabl 1**

| Problemau iechyd allweddol | Data (lleol a/neu genedlaethol) | Cyfraniad cynllunio defnydd tir i fynd i'r afael â phroblemau iechyd allweddol | Argymhellion ar gyfer egwyddorion cynllunio a dylunio |
|---|---|---|---|
| **Gordewdra**<br><br>Mae sawl ffactor o ran achosion gordewdra, gan gynnwys amgylcheddau sy'n achosi gordewdra a dewisiadau ffordd o fyw. | Mae 62% o oedolion yng Nghonwy yn byw dros eu pwysau neu yn ordew (BMI 25+) yn | Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn bywyd bob dydd | Gwella hwylustod cerdded yn y gymdogaeth<br><br>Adeiladu cymdogaethau cyflawn a chryno, gan alluogi i deithio llesol fod yn opsiwn hawdd a |

[1] Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018. *Creu llefydd a mannau iachach ar gyfer ein cenedlaethau yn y presennol a'r dyfodol.* https://phwwhocc.co.uk/whiasu/wp-content/uploads/sites/3/2021/06/Creating_healthier_places_and_spaces_for_our_present_and_future_generations.pdf

[2] Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017 *Cynllunio Gofodol ar gyfer Iechyd: Adnodd tystiolaeth ar gyfer cynllunio a dylunio llefydd iachach.* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729727/spatial_planning_for_health.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae amgylcheddau sy'n achosi gordewdra yn cyfyngu ar argaeledd bwyd iach cynaliadwy am brisiau fforddiadwy lleol, cyfyngu ar fynediad i gyfleusterau, gwasanaethau a siopau trwy weithgarwch corfforol a chludiant cyhoeddus.<br><br>Mae gordewdra yn gysylltiedig â nifer o gyflyrau iechyd, gan gynnwys clefyd y galon, canserau a diabetes math 2.<br><br>**Diabetes**<br><br>Byw gyda gordewdra yw'r prif ffactor risg ar gyfer diabetes math 2, gydag oedolion sy'n byw gyda gordewdra pum gwaith yn fwy tebygol o gael diagnosis o ddiabetes nac oedolion sydd â phwysau iach. | 2022/23 (Cymru 62%)<br><br>Mae 24% o oedolion yng Nghonwy yn byw gyda gordewdra (BMI 30+) yn 2022/23 (Cymru 25%)[3]<br><br>Mae 24.3% o blant 4 i 5 oed yn byw dros eu pwysau neu yn ordew yng Nghonwy yn 2022/23 (Cymru 24.8%)[4]<br><br>Amcangyfrifir y bydd gordewdra yn costio £465 miliwn i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn erbyn 2050<br><br>Cynnydd o bron i 60,000 o oedolion gyda diabetes yng Nghymru (40%) dros gyfnod o 12 | Creu mannau sy'n ddeniadol, cymdeithasol a diogel ar gyfer pobl i wneud gweithgarwch corfforol, a chynyddu cymdeithasu<br><br>Cefnogi i greu amgylcheddau bwyd iach | gwasanaethau / gweithgareddau o fewn cyrraedd<br><br>Galluogi mynediad at, ac ymgysylltiad gyda'r amgylchedd naturiol<br><br>Darparu llwybrau teithio llesol diogel, hygyrch ac wedi'u lleoli'n briodol[5]<br><br>Cyflwyno cysylltiadau cludiant cyhoeddus mewn datblygiadau newydd<br><br>Galluogi ac annog chwarae egnïol ar gyfer plant, yn anffurfiol a ffurfiol<br><br>Gwella isadeiledd bwyd cymunedol - cyfleodd tyfu bwyd cymunedol a rheoli cyfleoedd manwerthu bwyd[6] |

---

[3] Llywodraeth Cymru, Stats Cymru: Iechyd y Boblogaeth

[4] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhaglen Mesur Plant Cymru

[5] Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2018. Beicio a cherdded ar gyfer buddion iechyd unigol a'r boblogaeth.

[6] Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021. *Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach Ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mlynedd hyd at 2021/22, yn bennaf Math 2.<br><br>Rhagwelir y bydd cynnydd o 22% mewn diabetes erbyn 2035/36 os fydd y tueddiadau presennol yn parhau | | |
| **Iechyd meddwl**<br><br>Mae sŵn, llygredd, ansawdd tai, ansawdd mannau gwyrdd, a mynediad at wasanaethau oll yn effeithio ar iechyd meddwl<br>Mae tystiolaeth yn dynodi fod nifer o bobl â chyflwr iechyd meddwl yn byw neu wedi byw mewn tai gwael<br><br>**Dementia**<br><br>Mae cyfraddau dementia yn cynyddu yn unol â'r boblogaeth sy'n heneiddio. Mae ansawdd tai a'r amgylchedd yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl gyda dementia. | Adroddodd 7% o oedolion yng Nghonwy fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl yn 2022/23 (Cymru 11%)[7]<br><br>Fe wnaeth 79.9% o oedolion yng Nghymru sgorio eu bodlonrwydd gyda bywyd fel 7 allan o 10 neu uwch yn 2022/23. (Cymru 79.2%)<br><br>Amcangyfrifir mai'r gost i'r gymdeithas yn sgil iechyd meddwl gwael yw £7.2 biliwn y flwyddyn<br><br>Mae oddeutu 850,000 o bobl yn | Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol a rhyngweithio cymdeithasol<br><br>Darparu tai priodol, fforddiadwy, diogel ac o ansawdd da<br><br>Gall dai o ansawdd da ac amgylcheddau lleol wedi'u cynllunio'n dda gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd rhywun sy'n byw gyda dementia, gan eu helpu i fyw'n dda yn eu cymuned am hirach | Adeiladu cymdogaethau cyflawn a chryno, gyda mynediad hawdd at wasanaethau a chyfleoedd ar gyfer cymdeithasu<br><br>Galluogi mynediad at, ac ymgysylltiad gyda'r amgylchedd naturiol<br><br>Lleihau mynediad at beryglon amgylcheddol<br><br>Ystyried symudedd ar gyfer holl ddyluniadau a chynlluniau<br><br>Dylunio parth cyhoeddus 'sy'n deall dementia' (hygyrch, cyfforddus, diogel, digon o arwyddion ac unigryw)[8] |

[7] Iechyd Cyhoeddus Cymru: Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus (2022) - Iechyd Cyhoeddus Cymru

[8] RTPI | Dementia a Chynllunio Tref

| | | | |
|---|---|---|---|
| | byw gyda dementia yn y DU, ac mae disgwyl i'r nifer hwn godi o 1.6 miliwn erbyn 2040 | | |

## 4. Asesiad o Effaith ar Iechyd

I baratoi ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol, cesglir ac ystyrir ystod eang o dystiolaeth gan Swyddogion Polisi Cynllunio mewn perthynas â materion allweddol sy'n wynebu ardal, wedi'i lywio gan y cyd-destun lleol a chenedlaethol.

Yn ogystal, cyflawnir nifer o asesiadau statudol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig sy'n cynnwys Asesiad o Effaith ar Iechyd. Tra bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn cynnwys ystyriaethau iechyd, ystyriodd y Cyngor ei bod yn ddarbodus cyflawni Asesiad o Effaith ar Iechyd Cyfranogol hefyd, i gydweithio gyda budd-ddeiliaid lleol a chasglu gwybodaeth leol.

Roedd yr Asesiad o Effaith ar Iechyd hwn yn gyfranogiad cyflym mewn natur ac yn canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth ansoddol a mewnwelediad i'r effeithiau iechyd posibl o'r CDLlN arfaethedig ar gyfer Conwy gan fudd-ddeiliaid allweddol yn yr ardal leol.

**Y gweithdy**

Er mwyn trefnu'r gweithdy Asesiad o Effaith ar Iechyd, cysylltodd Tîm Cynllunio Polisi Cyngor Conwy ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru i'w cefnogi nhw. Yna cynhaliwyd gweithdy hanner diwrnod ar 29 Ebrill 2025 yng Nghyfforddd Llandudno.

Arweiniwyd y Gweithdy Asesiad o Effaith ar Iechyd gan yr Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, yn dilyn methodoleg systematig a ddisgrifiwyd yng nghanllawiau Asesu Effaith ar Iechyd Cymru 'Asesiad o Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol'.[9]

Gwahoddwyd cyfranogwyr o ystod o sefydliadau budd-ddeiliaid allweddol. Mae rhestr o'r cyfranogwyr yn Atodiad 1. Gellir gweld rhaglen ar gyfer y gweithdy yn Atodiad 2.

Y dasg ddechreuol oedd i'r grŵp nodi'r prif grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio'n anghyfartal gan y polisïau yn y CDLl, ac felly dylent gael ystyriaeth benodol trwy gydol y polisïau.

Cyflawnwyd y dasg gan ddefnyddio'r Rhestr Wirio Grwpiau Poblogaeth WHIASU. Er fydd y CDLl yn effeithio ar y boblogaeth gyfan, trafodwyd grwpiau penodol ac amlygir y rhain isod, heb unrhyw drefn benodol:

**Grŵp Oedran:**

- Plant a Phobl Ifanc (16-24) - dylid ystyried eu hanghenion yn y CDLlN, yn benodol yn unol â gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae nifer o bobl ifanc 16 - 18 oed yn teithio ar fws o amgylch yr ardal felly mae cludiant cyhoeddus yn bwysig.

---

[9] Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (2012). 'Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol'.

- Pobl hŷn - mae poblogaeth Conwy yn heneiddio, felly rhaid ystyried gofynion penodol ar gyfer pobl hŷn er mwyn eu galluogi i fyw bywydau annibynnol ac iach

**Grwpiau sydd â risg uwch o wahaniaethu:**

- Y gymuned Sipsiwn a Theithwyr - angen mynd i'r afael ag anghenion penodol y boblogaeth hon
- Pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl gydag anableddau - meddyliol a chorfforol

**Grwpiau sy'n gysylltiedig ag incwm**

- Pobl ar incwm isel a statws economaidd-gymdeithasol is
- Economaidd anweithgar - y sgil effeithiau gall hyn ei gael ar iechyd meddwl a chysylltiad cymunedol
- Aelwydydd unigolyn sengl
- Pobl sy'n profi amddifadedd a thlodi plant

**Grwpiau Eraill:**

- Cymunedau gwledig - mynediad a gwasanaethau
- Pobl sy'n byw mewn tai amlfeddiannaeth
- Twristiaid - mae nifer fawr o dwristiaid yn dod i Gonwy, yn arbennig yn ystod misoedd yr haf, gan gynyddu'r boblogaeth yn sylweddol gan roi mwy o bwysau ar wasanaethau megis meddygon
- Ail gartrefi / Airbnb - nifer fawr yng Nghonwy
- Iaith a diwylliant - angen diogelu'r Gymraeg a diwylliant Cymru gan ei fod yn bwysig i'r ardal
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig sydd heb fynediad at gar a methu fforddio cludiant cyhoeddus - wedi'u cyfyngu i brynu bwyd yn lleol, ac os nad yw'r bwyd yn iach e.e. bwyd i fynd, mae eu dewis yn gyfyngedig

**Gwerthusiad o effeithiau'r CDLlN ar benderfynyddion ehangach iechyd**

Bydd y CDLlN yn cael effaith ar nifer o benderfynyddion iechyd a welir yn Ffigur 1 uchod, ac mae cynllunio a dylunio defnydd tir yn gysylltiedig ag iechyd a lles.

Gweithiodd y cyfranogwyr yn systematig trwy'r penderfynyddion iechyd a lles yn y rhestr wirio iechyd gan ystyried effeithiau iechyd a lles cadarnhaol posibl a negyddol anfwriadol o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Nghonwy.

Fe wnaethant ystyried sut all y CDLlN helpu i wella'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol. Mae hyn wedi'i grynhoi yn Nhabl 2:

**Tabl 2**

**Ymddygiad yn Effeithio ar Iechyd**

| **Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | **Grwpiau Poblogaeth a Effeithir** |
|---|---|---|
| • Llywodraeth Cymru yn edrych ar fwyd i fynd poeth - yn datblygu.<br><br>• Siopau bwyd i fynd/caffis yn cynnig gofodau diogel i bobl ifanc dreulio amser.<br><br>• Teithio llesol (gweithgarwch corfforol)<br>  • offer awyr agored ar gael<br>  • dylunio amgylchedd sy'n annog gweithgarwch corfforol<br><br>• Parciau cŵn yn dod yn fwy poblogaidd (cymdeithasol ac actif)<br><br>• Rhandiroedd yn cynnig amgylcheddau cadarnhaol.<br><br>• Ardaloedd chwarae - ardal wyrdd / campfeydd awyr agored | • Nifer o siopau bwyd i fynd yn yr ardal felly mae opsiynau nad ydynt yn iach yn gyffredin.<br><br>• Siopau bwyd i fynd ger ysgolion uwchradd - disgyblion yn cael mynediad at brydau nad ydynt yn iach.<br><br>• Siopau fêps yn dod yn fwy cyffredin, cael eu henwi'n unedau manwerthu felly'n anodd rheoli trwy ddefnydd cynllunio. Yn aml yn gwerthu fferins hefyd.<br><br>• Ceginau tywyll (unedau diwydiannol lle caiff bwyd sy'n cael ei ddanfon ei baratoi) â rheolau cynllunio gwahanol. Nid yw'n hysbys faint sy'n bodoli ar draws Gogledd Cymru<br><br>• Yn aml mae cartrefi newydd yn dod gyda gerddi llai = llai o fannau gwyrdd.<br><br>• Mae costau rhentu wedi cynyddu - nid yw tai fforddiadwy yn bodoli bellach.<br><br>• Ardaloedd chwarae gydag offer traddodiadol yn gallu bod yn gostus i'w cynnal | Pob un<br><br>Crybwyllwyd yn benodol:<br>  • Pobl ifanc<br>  • Pobl hŷn |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLl**

- Ystyried sut ellir rheoli siopau bwyd i fynd poeth trwy'r polisi cynllunio - canolbwyntio ar oblygiadau iechyd yn ogystal â gor-grynodiad ac effeithiau amgylcheddol
- Ystyried mesurau i reoli niferoedd siopau fêps (gall fod yn fater trwyddedu yn hytrach na chynllunio)
- Sicrhau bod darpariaeth o ofodau y gall bobl ifanc weld yn ddiogel a deniadol yn hytrach na siopau bwyd i fynd
- Annog datblygwyr i roi ystyriaeth i ddyluniad yr amgylchedd ac annog gweithgarwch corfforol, ystyried pwy fydd yn defnyddio'r gofod a sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y gymuned sy'n ei ddefnyddio.
- Ystyried darpariaeth parciau cŵn
- Isafswm safonau ar gyfer gerddi / mannau agored mewn cartrefi newydd
- Annog datblygwyr i ddarparu gofodau chwarae sy'n symud i ffwrdd o ardaloedd chwarae traddodiadol, amgaeedig i ofodau mwy naturiol
- Cynnwys cynaliadwyedd bwyd a chyfleoedd tyfu bwyd o fewn polisi CDLlN

**Dylanwadau Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd**

| **Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | **Grwpiau Poblogaeth a Effeithir** |
|---|---|---|
| • Byw'n annibynnol - mae lleoliad yn bwysig, yn arbennig ar gyfer cenedlaethau hŷn.<br>• Gall gartrefi oes alluogi pobl i fyw mewn lle cyfarwydd a chael mynediad at wasanaethau yn hwyrach mewn bywyd<br>• Dyluniad tai - cadw pobl i fyw gartref am hirach.<br>• Datblygiad ar gyfer grŵp oedran penodol / pobl gydag anableddau / poblogaethau hŷn / teuluoedd ifanc.<br>• Gwasanaethau iechyd diagnostig yn cael ei ddarparu yn y gymuned | • Cymunedau amlgenhedlaeth mewn risg o gael eu gwahanu os nad oes llety priodol ar gael, effaith ar gymorth cymdeithasol<br>• Llai o fynediad at wasanaethau e.e. meddygfeydd, yn arbennig os ydynt yn byw mewn ardaloedd gwledig heb gludiant / gorfod dibynnu ar fysiau/trenau ac yn dibynnu arnynt i fod ar amser.<br>• Cynnydd yn y boblogaeth = effaith negyddol ar wasanaethau iechyd.<br>• Cleifion yn aros mewn meddygfeydd er eu bod wedi symud allan o'r dalgylch. | Pob un<br><br>Crybwyllwyd yn benodol:<br>• Pobl hŷn |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLl**

- Darparu tai sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol am hirach i oedran hŷn, a lleoli tai ar gyfer pobl hŷn mewn llefydd hygyrch.
- Sicrhau bod datblygiadau'n ystyried anghenion y boblogaeth leol, y rhai sy'n byw gerllaw ar hyn o bryd a phreswylwyr yn y dyfodol
- Cysylltu gyda'r bwrdd iechyd lleol am gyfeiriad strategol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd er mwyn sicrhau aliniad gyda datblygiad yn y dyfodol trwy'r CDLl

**Lles Meddyliol**

| **Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | **Grwpiau Poblogaeth a Effeithir** |
|---|---|---|
| • Mae polisi Creu Lleoedd yn canolbwyntio ar greu gofodau sy'n annog cymunedau cydlynol a chynhwysol yn gymdeithasol.<br>• Mae teimlo'n ddiogel yn eich cartref yn bwysig.<br>• Cyswllt cymdeithasol - rhwydweithio cymunedol, cysylltiad cymdeithasol - effeithiau mawr ar les meddyliol - darpariaeth o lefydd i gwrdd yn bwysig | • Pobl yn teimlo nad oes croeso mewn cymuned newydd.<br>• Tensiynau rhwng pobl nad ydynt eisiau tai fforddiadwy ger tai sefydledig<br>• Dim / diffyg mynediad at apwyntiadau meddyg yn effeithio ar les meddyliol<br>Tai fforddiadwy - methu fforddio tŷ yn effeithio'n negyddol ar les | Pob un<br><br>Crybwyllwyd yn benodol:<br>• Pobl hŷn<br>• Pobl ifanc<br>• Pobl yn symud i ardal newydd |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLlN**

- Sicrhau bod polisi Creu Lleoedd yn cynnwys manylion am sut i greu cymunedau cydlynol a chynhwysol yn gymdeithasol e.e. dylunio cymdogaethau gyda mynediad

hawdd at gerdded, gan fod tystiolaeth yn dangos fod hyn yn creu cydlyniant cymdeithasol a chefnogaeth gymunedol

- Annog darpariaeth o ofodau i bobl gwrdd, meinciau mewn mannau agored neu ar lwybrau troed, cyfleusterau cymunedol a llefydd i bobl ifanc gwrdd
- Hwyluso ymgysylltiad cymunedol ar ddechrau datblygiad newydd er mwyn helpu i liniaru ofnau a thensiynau am dai fforddiadwy newydd yn cael eu hadeiladu
- Sicrhau bod tai fforddiadwy newydd wedi'u cymysgu o fewn ardaloedd preswyl newydd er mwyn osgoi creu grwpiau ar wahân o gartrefi fforddiadwy
- Cysylltu gyda'r bwrdd iechyd lleol ar y cam cyn ymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr, er mwyn ystyried sut i liniaru effeithiau posibl ar wasanaethau iechyd lleol, a gallu mynd i'r afael â phryderon preswylwyr lleol am ddatblygiad newydd a sut fydd yn rhoi pwysau ar wasanaethau

**Amodau Byw ac Amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd**

| **Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | **Grwpiau Poblogaeth a Effeithir** |
|---|---|---|
| • Mae buddion net o ran bioamrywiaeth o fewn y CDLl<br>• Awyr Dywyll - Cyngor Conwy yn ystyried cyngor gan Lywodraeth Cymru<br>• Mae gan ddatblygiadau tai newydd ôl-troed llai.<br>• Mae teithio llesol yn dod yn fwy pwysig. Rhaid cael cydbwysedd rhwng darparu mannau parcio a dewisiadau teithio llesol<br>• Mae'r ardal yn agos at y Parc Cenedlaethol<br>• Mae mynediad at fannau gwyrdd yn cael effaith mawr ar iechyd a lles | • Ansawdd aer wrth ddatblygu eiddo newydd.<br>• Ddim bob amser â mynediad at fannau gwyrdd / glas.<br>• Anghydraddoldeb rhyw - dylai mwy o fannau fod yn niwtral o ran rhyw e.e. nifer o barciau sglefrio o gwmpas sydd i'w gweld ar gyfer bechgyn yn hytrach na merched.<br>• Parcio'n gyfyngedig ger mannau gwyrdd a all gyfyngu ar fynediad.<br>• Prisiau tai - plant yn byw gyda rhieni yn hirach gan nad ydynt yn gallu fforddio eu tai eu hunain. Mwy o geir wedi parcio ger un eiddo yn sgil hyn.<br>• Parcio yn achosi amhariad ar gymdogaethau gerllaw. | Pob un |

| | | |
|---|---|---|
| | • Problemau llifogydd, yn arbennig yn Nwyrain Sir Conwy.<br>• Inswleiddiad mewnol mewn eiddo newydd yn cadw cartrefi yn gynhesach ond mae hyn yn cael effaith negyddol ym misoedd yr haf a gall arwain at or-gynhesu. | |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLlN**

- Sicrhau bod polisi bioamrywiaeth yn galluogi darpariaeth o ystod eang o opsiynau i annog bioamrywiaeth e.e. toeau gwyrdd, waliau gwyrdd, mannau blodau gwyllt wedi'u diogelu ac ati.
- Dod o hyd i gydbwysedd rhwng yr angen i ddarparu mannau parcio ar gyfer ardaloedd preswyl, a'r angen i flaenoriaethu cyfleoedd teithio llesol. Canolbwyntio datblygiad newydd ger canolfannau cludiant presennol, darparu storfa beicio digonol mewn cartref newydd (nid ar gyfer beiciau safonol yn unig, ond rhaid ystyried beiciau tair olwyn, trelars a sgwteri)
- Cyflwyno gofynion polisi penodol ar gyfer dylunio a chreu gofodau sy'n gyfiawn - ar gyfer holl rywiau, gallu a diwylliannau.
- Sicrhau bod strategaeth a pholisi mannau gwyrdd yn ystyried hygyrchedd ar gyfer y gymuned
- Sicrhau bod polisïau tai yn ystyried effeithiau gwres yn yr haf, yn ogystal â'r angen i gadw cartrefi yn gynnes yn y gaeaf.

**Amodau Economaidd sy'n Effeithio ar Iechyd**

| Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Negyddol | Grwpiau Poblogaeth a Effeithir |
|---|---|---|
| • Effeithlonrwydd ynni gwell mewn cartrefi newydd - pympiau gwres, inswleiddiad, gwefru ceir, paneli solar.<br>• Mae gan Gonwy dir wedi'i ddyrannu ar gyfer storio solar a gwynt.<br>• Cynllun Ynni Ardal Leol | • Symud tuag at ôl-osod cartrefi hŷn gyda dewisiadau effeithlonrwydd ynni a chynaliadwy megis pympiau gwres sy'n anfforddiadwy ar gyfer nifer o bobl<br>• Mae cynnal a chadw cartrefi hŷn yn anodd ar | Pob un<br><br>Crybwyllwyd yn benodol:<br>• Pobl hŷn<br>• Pobl ifanc<br>• Pobl mewn ardaloedd difreintiedig |

| | | |
|---|---|---|
| • Gofod ar gyfer cydweithio yn lleol at adref gyda mynediad Wi-Fi da - felly'n cefnogi'r economi leol | gyfer pobl sy'n byw mewn tlodi<br>• Pobl ifanc yn gadael yr ardal yn sgil amodau economaidd, ond mae rhai gweithleoedd yn cyflogi pobl iau sydd yna'n ei gwneud yn anoddach i genedlaethau hŷn sydd eisiau gweithio a chael cyflogaeth.<br>• Y boblogaeth hŷn yn dod i oed ymddeol. Colli sgiliau megis crefftwyr<br>• Recriwtio gofal o dramor ar gyfer y boblogaeth hŷn | |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLlN**

- Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu gosod gyda dewisiadau ynni a gwresogi effeithlon, ond ystyried pa mor fforddiadwy fydd y rhain i ddeiliad newydd eu cynnal.
- Annog lleoliad cyfleoedd cyflogaeth lle mae mynediad at gludiant cyhoeddus ac ystyried cyfleoedd lleol ar gyfer cyflogaeth
- Darparu gofodau ar gyfer cydweithio mewn cymunedau lleol

**Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd**

| Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol | Effeithiau Negyddol | Grwpiau Poblogaeth a Effeithir |
|---|---|---|
| • Mae lleoliadau ysgolion a datblygiadau tai yn bwysig gan fod angen iddynt fod yn agos at wasanaethau<br>• Mae ysgolion angen i fwy o blant fynychu fel eu bod yn derbyn mwy o arian ac yn gallu darparu | • Diffyg apwyntiadau iechyd.<br>• Gwasanaethau yn ei chael yn anodd cefnogi'r boblogaeth sydd gennym yn barod.<br>• Cost uchel i adeiladu isadeiledd newydd yn y sector cyhoeddus. | Pob un |

| | | |
|---|---|---|
| gwasanaeth gwell | Mae rhai ysgolion yn llawn - bwriad i adeiladu ysgol arall yn Llanfairfechan i helpu gyda hyn. | |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLlN**

- Gosod datblygiadau newydd o fewn mynediad hawdd at wasanaethau presennol, blaenoriaethu cerdded, beicio a chysylltiadau cludiant cyhoeddus.
- Sicrhau bod darpariaeth a mynediad at wasanaethau yn ystyriaeth mewn datblygiadau newydd
- Cysylltu gyda'r bwrdd iechyd lleol ar unrhyw ddatblygiad newydd i ystyried effeithiau ar iechyd a gwasanaethau gofal a chanfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

**Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd**

| **Cyfle/Effeithiau Cadarnhaol** | **Effeithiau Negyddol** | **Grwpiau Poblogaeth a Effeithir** |
|---|---|---|
| • Isadeiledd Gwyrdd: mae isadeiledd gwyrdd ac adnoddau naturiol presennol yng Nghonwy y gellir eu defnyddio i gynyddu iechyd a lles | • Newid Hinsawdd - angen cael ei ystyried trwy gydol y cynllunio a dylunio gan y bydd mwy o lifogydd a gwres yn cael effaith ar iechyd<br>• Sector Gwirfoddol - cyllid tymor byr, gall wasanaethau newid a chael effaith ar yr amgylchedd. | Pob un |

**Sut ellir mynd i'r afael ag effeithiau posibl yn y CDLlN**

- Blaenoriaethu ystyriaethau o effaith newid hinsawdd ar iechyd a lles a chynnwys hyn mewn dylunio e.e. darparu gofodau dan gysgod mewn ardaloedd cymunedol neu ar lwybrau teithio llesol, darparu planhigion mewn datblygiadau tai newydd.
- Diogelu a gwella isadeiledd a mannau gwyrdd presennol

**Crynodeb**

Mae gan Gynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy 2018-2033 y potensial i fod yn hynod fanteisiol i boblogaeth Conwy gan ei fod yn canolbwyntio'n gryf ar iechyd a lles. Gall y mewnwelediad, myfyrdodau ac ystyriaethau a gasglwyd o'r gweithdy hwn wella effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol posibl os cânt eu bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu cam nesaf y cynllun. Bydd y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir fel rhan o'r broses adolygu hon yn cael ei ddefnyddio i lywio ac addasu'r CDLlN terfynol.

Roedd adborth gan gyfranogwyr y gweithdy yn gadarnhaol, gyda sylwadau ynglŷn â gwerth cael cyfranogiad ac ymgysylltiad yn y broses paratoi'r CDLlN. Roedd y cyfranogwyr wedi mwynhau cael cyfle i drafod effeithiau posibl gyda chynllunwyr a budd-ddeiliaid eraill.

**Atodiad 1: Rhestr bresenoldeb y gweithdy**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Bryn Kyffin | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Elen Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Erica Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Geraint Davies | Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy |
| Hannah Fleck | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| James Harland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jodie Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Lydia Orford | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Melissa Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Shane Wetton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Sian Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Siwan Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Stuart Keen | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Alison Kemp | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Sharon Gammon | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Gail Critchley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Nicola Pritchard | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Emma Jones | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

Atodiad 2: Rhaglen y Gweithdy

## Gweithdy Cyfranogiad Cyflym

## ar gyfer Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Conwy

## 28.04.2025, 09.30am- 12.30pm

| Amser | Gweithgaredd | Siaradwr |
|---|---|---|
| 09.15 | Cofrestru (te / coffi ar gael) | |
| 09:30 | **Croeso a chyflwyniad i'r gweithdy** | **Cheryl Williams:** Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, WHIASU |
| 09:40 | **Cyflwyniad:** Trosolwg o'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd | **James Harland:** Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 09:50 | **Cyflwyniad:** Dangosyddion iechyd allweddol a demograffeg poblogaeth Conwy | **Lydia Orford:** Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| 10:05 | **Cyflwyniad:** Trosolwg o'r broses Asesu'r Effaith ar Iechyd | **Cheryl Williams:** Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, WHIASU |
| 10.20 | **Gweithgaredd gweithdy:** canfod grwpiau poblogaeth allweddol a all gael eu heffeithio gan y CDLl | **Grŵp wedi'i hwyluso** |
| 10:45 | EGWYL | |
| 11:00 | **Gweithgaredd gweithdy 2:** Canfod effaith y CDLl ar benderfynyddion ehangach iechyd | **Grŵp wedi'i hwyluso** |
| 12:20 | Sylwadau terfynol a sylwadau clo | **Cheryl Williams / James Harland** |
| 12:30 | Cloi | |

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

UGAEIC
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru

WHIASU
Wales Health Impact
Assessment Support Unit